# Amserlenni gwneud penderfyniadau ADY

Mae'r tabl yn darparu crynodeb lefel uchel o'r dyletswyddau a'r disgwyliadau a nodir yn y Cod ADY.

| Cam gweithredu neu benderfyniad | Corff cyfrifol | Amserlen | Nodiadau ac eithriadau |
|---|---|---|---|
| Penderfyniad ynghylch a oes gan blentyn ADY | Ysgol a gynhelir | Yn brydlon, neu o fewn 35 diwrnod ysgol | Caniateir eithriad os yw'n anymarferol oherwydd amgylchiadau y tu hwnt i reolaeth. |
| Penderfyniad ynghylch a oes gan blentyn ADY | Awdurdod lleol | Yn brydlon, neu o fewn 12 wythnos | Caniateir eithriad os yw'n anymarferol oherwydd amgylchiadau y tu hwnt i reolaeth. |
| Penderfyniad ynghylch a oes gan berson ifanc ADY | Awdurdod lleol | Yn brydlon, neu o fewn 12 wythnos | O ddyddiad y cais. |
| Llunio a chyhoeddi'r CDU | Ysgol a gynhelir | Yn brydlon, neu o fewn 35 diwrnod ysgol | Caniateir eithriad os yw'n anymarferol oherwydd amgylchiadau y tu hwnt i reolaeth. |
| Llunio a chyhoeddi'r CDU | Awdurdod lleol | Yn brydlon, neu o fewn 12 wythnos | Caniateir eithriad os yw'n anymarferol oherwydd amgylchiadau y tu hwnt i reolaeth. |
| Penderfyniad ADY neu lunio a chyhoeddi'r CDU (ailystyried) | Awdurdod lleol | Yn brydlon, neu o fewn 7 wythnos | Caniateir eithriad os yw'n anymarferol oherwydd amgylchiadau y tu hwnt i reolaeth. |
| Adolygu'r CDU | Ysgol a gynhelir neu awdurdod lleol | Cyn diwedd y cyfnod adolygu (12 mis gan ddechrau gyda'r dyddiad y rhoddir copi o'r CDU am y tro cyntaf) | Rhaid ei gwblhau o fewn y cyfnod adolygu a ddiffinnir yn y CDU neu'n gynt os oes newid sylweddol yn yr amgylchiadau neu os oes gwybodaeth newydd yn dod i'r amlwg. |

**Nodiadau cyffredinol ar amserlenni**

- Mae 'yn brydlon' yn golygu heb oedi, gan ystyried yr amgylchiadau unigol.
- Mae 'diwrnodau ysgol' yn cyfeirio at ddiwrnodau pan mae'r ysgol ar agor.
- Os nad yw diwrnod olaf cyfnod yn ddiwrnod gwaith, mae'r dyddiad cau yn cael ei ymestyn i'r diwrnod gwaith nesaf.
- Nid yw diwrnod y digwyddiad sbarduno (er enghraifft yr atgyfeiriad neu gais) yn cael ei gyfrif yn yr amserlenni.